| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Iau 13 Tachwedd 2003** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Bwyllgora 3&4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Adolygiad Polisi: Adolygiad o'r Berthynas rhwng Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |

## Nodau

I bwyso a mesur pa mor effeithiol yw'r ffordd y mae'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio a chydweithredu â'i gilydd; i nodi arferion da a chynnig argymhellion er mwyn annog y prif asiantaethau i wella'r broses o gydweithio a chydweithredu.

## Cylch gorchwyl

I Adolygu'r dulliau o gydgynllunio a darparu gwasanaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac ansawdd y sylfaen dystiolaeth.

I weld pa mor atebol yw'r trefniadau ar gyfer cydgynllunio a darparu gwasanaethau.

I gloriannu'r effeithiau (cadarnhaol a negyddol) y gall y penderfyniadau a wneir mewn un gwasanaeth eu cael ar wasanaeth arall.

I edrych ar faterion allweddol sy'n effeithio ar ansawdd gwasanaeth cydgysylltiedig a'r ffordd y caiff ei ddarparu, yn benodol:

- y trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty
- gofal canolraddol
- gwasanaethau preswyl a gwasanaethau cartrefi nyrsio
- gwasanaethau gofal yn y cartref
- y rhan y mae'r sectorau annibynnol a phreifat yn ei chwarae
- cymorth i ofalwyr.

I adolygu'r rhan y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ei chwarae wrth annog cleifion i fod yn annibynnol ac wrth eu hatal rhag cael eu derbyn neu eu derbyn drachefn i'r ysbyty yn ddi-angen.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**